**GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024 GORCHYMYN DIWYGIO RHIF.2 2025**

**RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor"), fel Awdurdod Priffyrdd Porthcawl, wedi gwneud y Gorchymyn canlynol trwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i (2), 4,124(1) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, sydd yn diwygio'r cyfyngiadau canlynol yng NGORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024 (**"Y Gorchymyn Cydgrynhoi"**), trwy ddirymu'r Cynllun Gorchymyn L75 dyddiedig 29.11.2024 a mewnosod y Cynllun Gorchymyn diwygiedig L75 Diwygiad 1, sydd yn cyflwyno cyfyngiad gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg fel y nodir yn yr atodlen isod.

Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd, gan gynnwys Gorchymyn a Chynlluniau'r Cyngor a Datganiad o'i resymau dros wneud y Gorchymyn, ar gael trwy gysylltu naill ai â traffictransportation@bridgend.gov.uk neu ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Ffôn: 01656 646363 (dyfynnwch y cyfeirnod TRA001-1586) neu o'r Dderbynfa Ddinesig yn y cyfeiriad a roddir isod yn ystod oriau swyddfa, neu gellir eu gweld ar-lein yn: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.

Gwnaed y gorchymyn ar 08/10/2025 a bydd yn dod i rym ar 22/10/2025. Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd unrhyw Orchymyn neu unrhyw un o'i ddarpariaethau ar y sail nad yw/ydynt yn unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf neu ar y sail nas cydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf, gall y person hwnnw, o fewn chwe wythnos o'r dyddiad y gwnaed y Gorchymyn, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.Os bydd angen yr hysbysiad hwn arnoch mewn fformat arall, megis print mwy, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Is-adran Gwasanaethau Cyfreithiol yn y cyfeiriad isod neu ffoniwch y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01656 643643 cyfeirnod cyfreithiol TRA001-1586.

**ATODLEN - GWAHARDD AROS, LLWYTHO, A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG**

**Ffordd Llyn Halen (Ffordd Fynediad Aldi)**

(i) Ar ei hochr ddeheuol, o'i chyffordd â Chylchfan Portway yr A4106, i gyfeiriad y dwyrain, am bellter o tua 124 metr (136 llath).

(ii) Ar ei hochr ogleddol, o'i chyffordd â Chylchfan Portway yr A4106, i gyfeiriad y dwyrain, ac yna i gyfeiriad y gogledd, am bellter o tua 79 metr (86 llath).

(iii) Ar ei hochr ddeheuol, o'i therfyn yn y dwyrain, i gyfeiriad y gogledd, am bellter o tua 7 metr (8 llath).

(iv) Ar ei hochr ddeheuol, o'i therfyn yn y dwyrain, i gyfeiriad y gogledd-orllewin, am bellter o tua 46 metr (50 llath).

**Dyddiedig: 16/10/2025**

K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.

K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.